

**Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Lun, 22ain Mai 2017 yn Ystafell Nantlle, Plas y Brenin, Capel Curig**

**Presenol:** Sian Shakespear (SS) – Cadeirydd, Iolo (IPR), Eryl (EO), Gwyn (GW), Myfyr (MT), Elen (EH), Dwynwen (DP), Gareth (GER), Eirwen (EW), Richard (RR)

**Ymddiheuriadau:** Mark, Dewi, Iolo (ap Gwynn), Elen, Raymond

<p>1.</p>	<p><b><u>COFNODION</u></b></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 30ain o Ionawr, 2017 fel rhai cywir.</p> <p>Yn codi</p> <p>Rhestr Presenoldeb – Nodwyd y dylid fod wedi cynnwys Eirwen fel un o'r rhai oedd yn bresenol yn y cyfarfod.</p> <p>Eitem 3C: GŴYL DDEWI ARALL</p> <p>Cyfeiriodd SS at y sesiwn ar Gopaon Cymru yn ystod Gŵyl Ddewi Arall a gynhaliwyd ar y 4ydd o Fawrth yng Nghaernarfon. Roedd y sesiwn wedi bod yn un llwyddiannus ac wedi helpu i godi proffil y Clwb. Diolchodd i Gerallt Pennant am arwain y sesiwn ac i'r aelodau eraill gyfrannodd.</p> <p>Eitem 6: CYFRYNGAU CYMDEITHASOL</p> <p>Nododd SS nad oedd amser i drafod hyn yn y cyfarfod hwn ond byddai eitem benodol ar y mater yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi.</p>
<p>2.</p>	<p><b><u>COPAON CYMRU</u></b></p> <p><b>AILARGRAFFIAD</b></p> <p>Adroddodd EO ei fod wedi cael trafodaethau pellach hefo Gwasg Carreg Gwalch yn dilyn y cyfarfod diwethaf ac roeddynt bellach wedi ailargraffu 1000 o gopiau o'r gyfrol a chredir bod oddeutu 200 o gopiau o'r ail argraffiad wedi eu gwerthu hyd yma. Nid oedd y Clwb wedi wynebu unrhyw gost ynghlwm â'r ailargraffiad yn sgil y cytundeb i hepgor derbyn incwm freindal o'r gwerthiant.</p> <p>Gan fod yr argraffiad cyntaf wedi ei werthu i gyd bydd y Clwb yn derbyn incwm breindal gan y Wasg rhywbryd ym mis Mehefin.</p> <p>Cytunwyd</p> <ol style="list-style-type: none"><li>1. Diolch i EO am y wybodaeth a chroesawyd y ffaith bod ail argraffiad wedi ei sicrhau heb unrhyw gostau yn disgyn ar y Clwb</li><li>2. Gofyn i EO adrodd am yr incwm breindal yn y cyfarfod nesaf.</li></ol>
<p>3.</p>	<p><b><u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2017 - DARLITH GOFFA LLEW GWENT</u></b></p> <p>Ystyriwyd trefniadau ar gyfer cynnal darlith y Clwb yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni</p> <p>Adroddwyd gan GW</p> <p>Bydd George Jones a John Grisedale yn rhoi Darlith Goffa Llew Gwent eleni dan y teitl "Dyrchafaf fy Llygaid i'r Mynyddoedd". Byddant yn sôn am eu cyfnod fel aelodau o Dîm Achub Mynydd Llanberis a chan fod gan y ddau 75 mlynedd o brofiad o weithio yn y tîm rhyngddynt bydd ganddynt lawer o brofiadau i'w rhannu.</p>

Bydd y ddarlith yn cael ei chynnal am 4yp, dydd Mawrth, 8f ed Awst ym Mhabell y Cymdeithasau ar y Maes. Nododd ei fod wedi cael cryn drafferth vn cael lle yn y babell hon eleni ac efallai ei bod yn werth ystyried dechrau gwneud y trefniadau yn gynt yn y dyfodol.

Nodwyd bod angen trefnu cyhoedduswydd i'r ddarlith ac y dylid cael taflenni cyhoedduswydd ar ei chyfer (maint A4 ac A5). Dylid gofyn i George neu John am lun ar gyfer y daflen.

Nododd Eryl, Gareth, Richard ac Eirwen y byddant o gwmpas y Maes yn ystod yr wythnos ac y gallant helpu i ddsbarthu'r taflenni.

Adroddwyd hefyd y bydd EW yn trefnu taith y Clwb yn ystod yr Eisteddfod eleni. Bydd yn daith arfordirol yn ardal Caergybi ac mae xxxx, Warden xxx wedi cytuno i gyd-arwain y daith.

Cytunwyd

1. Diolch i GW am ei waith diwyd yn gwneud y trefniadau ar gyfer y ddarlith eleni
2. Gofyn i GW drefnu hefo Maldwyn Roberts a Gwasg Ffranccon i argraffu'r taflenni cyhoedduswydd a'u trosglwyddo i'r unigolion a enwyd uchod i'w dosbarthu
3. Diolch i EW am fod yn gyfrifol am drefnu taith gerdded yr Eisteddfod.

#### **4. CYFARFOD BLYNYDDOL 2017**

Ystyriwyd trefniadau ar gyfer cynnal y Cyfarfod Blynyddol eleni.

Trafodwyd p'run ai cael gŵr/gwraig gwadd yn y cyfarfod yn dilyn y cinio neu a fyddai'n well rhoi cyfle i aelodau gymdeithasu ymysg ei gilydd

Cytunwyd

1. Dylid cynnal y Cyfarfod Blynyddol eleni ar ddydd Sadwrn 4ydd Tachwedd 2017
2. Fel dewis cyntaf ei gynnal ym Mhlas y Brenin ac os na fydd lle yno holi os gellir ei gynnal yng Ngwesty'r Celtic yng Nghaernarfon
3. Gofyn i SS gysylltu â Sam Roberts i holi a fyddai'n fodlon bod yn ŵr gwadd ar gyfer y cyfarfod.
4. Yn sgil y drafodaeth a gafwyd, cytunwyd diwygio'r amserlen eleni a threfnu'r cyfarfod ar y llinellau canlynol:

5.30 – 6.15 – Cyfarfod Blynyddol  
6.30 - 7.15 – Gŵr/Gwraig Gwadd  
7.30 -- Cinio

5. Gellid ceisio barn yr aelodau am y drefn ddiwygiedig yn ystod y cyfarfod ac adolygu'r mater eto

#### **5. CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB**

Adroddodd EO

bod yr wythnos yn Nhorridon wedi bod yn llwyddiannus dros ben gyda phawb wedi mwynhau'r gweithgareddau a gafwyd yno o dan awyr las a heulwen a gyda'r copaon yn glir bob dydd. Cafodd un aelod ddamwain wrth ddod i lawr Beinn Alligin a bu'n rhaid galw am y Tîm Achub Lleol a hofrennydd i'w chael i lawr o'r mynydd. Yn ffodus doedd ei hanaf ddim yn un difrifol.

ei fod yn ymddiheuro am anghofio y cynnwys yr wythnos yn y rhaglen er ei bod yn weithgaredd swyddogol gan y Clwb.

ei fod yn edrych ar y posibilrwydd o gynnal penwythnos preswyl yn ystod yr hydref tebyg i'r rhai a gafwyd yn y gorffennol

ei fod wedi derbyn sylw gan ambell i aelod ynglŷn â chyfrifoldebau arweinyddion teithiau'r Clwb a'i fod wedi edrych ar y canllawiau hynny a'u haddasu. Cyflwynodd y canllawiau hyn i'r aelodau.

Cytunwyd

1. Diolch i Elen a Morfudd am wneud y trefniadau ar gyfer yr wythnos yn Nhorridon.
2. Gofyn i GER drefnu rhoi cyfraniad o £200 i Dîm Achub Lleol Torridon fel cydnabyddiaeth o'u cymorth i gael yr aelod oddi ar y mynydd.
3. Gofyn i EO drefnu penwythnos preswyl yn Ardal y Llynnoedd yn ystod yr hydref eleni
4. Dylid cael trafodaeth ar ganllawiau i arweinyddion yn y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i aelodau'r Pwyllgor eu hystyried a hefyd eu cylchredeg i'r aelodau hynny na allent fod yn bresennol yn y cyfarfod .
5. Bod angen ar yr un pryd hefyd ystyried cyfrifoldebau a disgwyliadau (offer a.y.y.b.) aelodau sy'n mynychu teithiau'r Clwb.
6. Diolchwyd i EO am ei waith yn llunio'r rhaglen

**6** **RHAGLEN HYFFORDDIANT & DIWRNOD BLASU/TREFNIADAU GLAN-LLYN**

Diwrnod Blasu/Urdd

Adroddodd SS bod y trefniadau, ar y cyd gyda'r Urdd, i gynnal teithiau ar gyfer teuluoedd yn bennaf, ar ddydd Llun, 1af Mai i fyny tri prif gopa Cymru (sef Yr Wyddfa, Cader Idris a Phen y Fan) wedi bod yn llwyddiannus gyda dros 70 o bobl wedi mynychu'r 3 daith.

Yn sgil y llwyddiant yma mae bwriad i gynnal trafodaethau gyda swyddogion yr Urdd i weld os gellir cael digwyddiad cyffelyb yn flynyddol.

**7** **OFFER**

Cytunwyd y byddai MT yn gwneud ymholiadau i gadarnhau nifer a lleoliad y gwarchodyddion grŵp sydd ym meddiant y Clwb ac am yr angen neu beidio i gael ychwaneg.

**8.** **MATERION C.M.P**

Rhoddodd MT adroddiad ar gyfarfod Pwyllgor y Gogledd a gynhaliwyd yn Llanberis ar y 10fed Ebrill, 2017 ac am y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ym Mhlas y Brenin ar y 22ain Ebrill, 2017

Nododd bod y cymorth ariannol a dderbyniai CMP gan Sport England wedi ei gwtogi yn sylweddol ac yn sgil hynny roedd y Cyfarfod Blynyddol wedi cytuno i godi tanystrigiadau gan aelodau. Byddai tanystrigiad aelodau clybiau £1 yn ddrutach, sef £13.25 am bob aelod.

Adroddodd GER y byddai hyn yn golygu y byddai'r incwm a dderbynia'r Clwb o'r tâl aelodaeth presennol o £15 yn llai.

Diolchwyd i MT am ei adroddiad.

**9.** **PARTNERIAETH AWYR AGORED**

Adroddodd SS fod RG, a oedd yn methu bod yn bresennol yn y cyfarfod, am drefnu i gael sgwrs hefo Simon Jones o'r Bartneriaeth i drafod perthynas y Clwb gyda hwy.

Nodwyd y gallasai nifer o aelodau fod angen cwrs cymorth cyntaf a bod yna aelod yn awyddus i wneud cwrs arweinydd mynydd ac un arall i wneud cwrs arwain ar fryniau neu rostiroedd

Llongyfarchwyd Chris Humphreys am ennill cymhwyster SPA drwy'r Bartneriaeth yn ddiweddar

**10.** **TREFNIADAU BANCIO'R CLWB**

Adroddodd GER am broblemau yr oedd wedi eu cael hefo banc y Clwb sef HSBC yn ddiweddar.

Teimlai fod y rhwystredigaethau mor ddrwg bellach fel ei bod yn werth ystyried newid banc y Clwb. Roedd yn ymwybodol o drefniadau Banc Barclays a chredai y gellid cael gwell trefniant o symud y cyfrif atynt.

Cytunwyd ag awgrym y Trysorydd i symud cyfrif banc y Clwb o HSBC i Barclays wedi iddo wneud rhagor o waith ymchwil i beth fyddai oblygiadau ymarferol gwneud hynny.

#### 11. **GWEITHGAREDDAU PRESWYL Y CLWB**

Adroddodd EO fod trefnwyr wythnos y Clwb yn Torridon ac wythnos y Clwb yn yr Alban ym mis Chwefror wedi sôn wrtho am unigolion yn tynnu yn ôl yn ddiweddar iawn ac yn rhai achosion methwyd cael neb yn eu lle. Roedd y trefnwyr wedi gofyn am arweiniad ynglŷn â sut y dylid delio hefo'r unigolion yn yr amgylchiadau hyn.

Cafwyd trafodaeth lawn ar y mater yma

Cytunwyd

1. mai'r egwyddor sylfaenol oedd na ddylai'r Clwb fod ar golled o achos i unrhyw unigolyn dynnu yn ôl ar ôl iddo/i roi ei enw i lawr ac ymrwymo i fynychu.
2. Dylid bod yn sensitif i unrhyw achos a oedd o ganlyniad i waeledd neu brofedigaeth ond fel arall byddai disgwyl i aelod dalu os oedd wedi nodi ei fod/bod am fynychu'r gweithgaredd.
3. Dylai pob trefnydd wneud yn glir fod disgwyl i aelodau fynychu unwaith mae lle wedi ei glustnodi ar eu cyfer
3. Gan mai taith i Ardal y Llynnoedd fydd y gweithgaredd preswyl nesaf gan y Clwb gofyn i EO, fel y trefnydd, nodi'r polisi yma yn yr ohebiaeth fydd yn cael ei dosbarthu i'r aelodau.

#### 12. **POLISI CWN AR DEITHIAU**

Adroddodd EO ei fod wedi cael nifer o ymholiadau ynglŷn â pholisi'r Clwb ynglŷn â chŵn ar deithiau. Doedd o ddim yn ymwybodol bod gan y clwb bolisi ar hyn.

Cafwyd trafodaeth ar y priodoldeb o ganiatáu cŵn ar deithiau'r Clwb neu beidio a daeth yr ystyriaethau canlynol i'r amlwg:

- Nid yw pawb o reidrwydd yn mwynhau presenoldeb cŵn ar deithiau'r Clwb
- Ei fod yn bolisi nifer o glybiau cerdded i wahardd cŵn ar eu teithiau
- Y posibilrwydd y gallai eu caniatáu arwain at nifer o gŵn yn bresennol ar y teithiau
- Bod y Clwb yn awyddus i fagu perthynas dda gyda thirfeddianwyr a gallasai presenoldeb cŵn lesteirio ar hyn
- Ar rai mathau o lwybrau gallai presenoldeb cŵn achosi peryglon

Cytunwyd y dylid sefydlu polisi o beidio â chaniatáu cŵn ar deithiau a gweithgareddau Clwb Mynydda Cymru.

#### 13 **MESUR I DDIOGELU ENWAU LLEOEDD HANESYDDOL CYMRU**

Adroddodd GW fod y mesur a gyflwynwyd gan Dr Dai Lloyd AC gerbron y Cynulliad i ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg gan gynnwys enwau mynyddoedd a bryniau, wedi methu.

Roedd y Clwb Mynydda wedi chwarae rhan flaenllaw yn ymgyrchoedd Mynyddoedd Pawb ac fel sefydliad sy'n anelu i hyrwyddo mynydda drwy gyfrwng y Gymraeg roedd yn siom bod y mesur wedi methu

Cytunwyd, oherwydd pwysigrwydd gwarchod a diogelu enwau Cymraeg, y dylid ysgrifennu at yr aelodau hynny o'r Cynulliad a oedd wedi pleidleisio yn erbyn y mesur yma yn mynegi siom ynglŷn â hyn gan

nodi y byddai'r ddeddfwriaeth yma wedi mynd rhywfaint o'r ffordd i geisio gwarchod ein hetifeddiaeth sydd dan fygythiad cynyddol.

**14** **CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR**

Cytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar ym mis Medi, 2017 yng Nghapel Curig os yn bosib.